

OWEN, OWEN (1850 - 1920), prif arolygwr Bwrdd Canol Cymru

Enw: Owen Owen

Dyddiad geni: 1850

Dyddiad marw: 1920

Priod: S. A. Owen (née Jones)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: prif arolygwr Bwrdd Canol Cymru

Maes gweithgaredd: Addysg; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Edgar William Jones

Ganwyd ym mhlwyf Llaniestyn, Llŷn, Sir Gaernarfon. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg Botwnnog gyda'i gefnder [John Owen](#) (esgob Tyddewi yn ddiweddarach). Ymrestrodd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, a graddiodd gydag anrhydedd yn y clasuron yn 1877. Yn ei ieuentid cymerai ddi-ddordeb eiddgar mewn cerddoriaeth. Oddeutu 1878 aeth yn brifathro ar ysgol breifat yng Nghroesoswallt. Llwyddodd yr ysgol yn fawr a daeth yn adnabyddus trwy Gymru fel yr 'Oswestry High School,' gan ddenu, oherwydd yr enw da oedd iddi, ddisgyblion o bob rhan o'r wlad. Daeth llawer ohonynt yn arweinwyr ym mywyd cyhoeddus Cymru. Yr oedd Owen pan yng Nghroesoswallt yn ustus heddwch, yn wleidyddwr amlwg, ac yn un o arweinwyr y frwydr dros Ddatgysylltiad. O 1890 i 1893 yr oedd yn un o ddau ysgrifennydd y cynadleddau unedig a luniodd gynlluniau addysg siroedd Cymru dan Ddeddf Addysg 1889. Yn 1896 sefydlwyd Bwrdd Canol Cymru ac yn 1897 penodwyd Owen yn brif arolygwr cyntaf y Bwrdd, swydd a lanwodd gyda medr a ffyddlondeb dihafal hyd 1915, pan orfu iddo ymddiswyddo oherwydd afiechyd. Bu farw 14 Mawrth 1920 ym Mae Colwyn a chladdwyd ym mynwent Llandrillo-yn-Rhos.

Awdur

Edgar William Jones, (1868 - 1953)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

Delweddau

Christopher Williams, [Owen Owen \(1850-1920\)](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q14945672](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

